Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MAP-KW-3043-18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Tachwedd 2018

Annwyl Lynne,

Ymchwiliad i Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 24 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth am un o'r camau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Medi, Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Mae'ch llythyr yn gofyn am eglurhad o ddau bwynt: Dadansoddiad o'r goblygiadau cychwynnol a nodwyd, a sut mae'r £6.2 miliwn yn cyfrannu at eu rheoli'n ymarferol.
Fel yr eglurodd fy ymateb cynharach, er ein bod wedi nodi'r risgiau allweddol a'r goblygiadau posibl ar gyfer y sector, yn dilyn tystiolaeth gan CCAUC a thrafodaethau gyda CCAUC a Phrifysgolion Cymru, rydym yn ymwybodol hefyd fod darparwyr unigol yn asesu'r risgiau ar lefel sefydliadol ac yn gorfod ystyried mesurau amrywiol a fydd eu hangen o bosibl i leihau costau. Nid yw'r gwaith asesu risg ar lefel sefydliadol, na'r effeithiau a'r camau gweithredu penodol a nodwyd gan ddarparwyr unigol, wedi'u rhannu â ni, ac fel yr eglurodd CCAUC yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, nid oes modd rhannu'r wybodaeth hon â'r cyhoedd.

Mae CCAUC yn gweithio'n agos gyda sefydliadau er mwyn deall yr heriau a'r risgiau a wynebant a sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hynny. Dyrannwyd y cyllid ychwanegol i CCAUC nid yn unig er mwyn helpu i gynorthwyo'r sector i baratoi ar gyfer goblygiadau Brexit, ond hefyd er mwyn ymateb i'r heriau ychwanegol sy'n deillio o newidiadau demograffig. Wrth ddyrannu'r cyllid, ni wnaeth Llywodraeth Cymru bennu sut y dylid rhannu'r cyllid rhwng y ddau faes. Mae CCAUC yn gyfrifol am benderfynu sut i ddosbarthu'r cyllid a ddyrennir iddo gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, bydd CCAUC wedi defnyddio ei wybodaeth am y sector a'i arbenigedd i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ddyrannu'r adnoddau a ddarparwyd. Ym marn CCAUC, gan fod y cyllid yn arian a ddygwyd ymlaen o gyllid a nodwyd yn wreiddiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19, byddai lleihau lefel yr addasiad cyllid a gymhwyswyd i ddyraniadau 2017-18 yn sicrhau bod

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sefydliadau’n gallu manteisio’n syth ar ddyraniadau cyllid cynharach ac yn rhoi hyblygrwydd iddynt allu paratoi cynllun wrth gefn ar gyfer Brexit.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education